

## 1. Croeso ac ymddiheuriadau

- 1.1 Croesawyd pawb gan Einir Williams. (EW)
- 1.2 Presennol: Diane Roberts(DR), Elen H. Edwards(EHE), R. Emlyn Williams (REW) Gwynfor Davies (GD), Ann Vaughan(AV) Cyng Garffild Lloyd Lewis (GLL)
- 1.3 Ymddiheuriadau: Gwyn Williams (GW), Clwyd Roberts (CR), Gwydion Jones (GJ)
- 1.4 Absennol: Gerallt Evans(GE)
- 1.5 Cytunodd AV i gofnodi'r cyfarfod yn absenoldeb Clerc.

## 2. Ni wnaeth neb ddatgan cysylltiad ac eitem ar yr agenda.

## 3. Cofnodion cyfarfod Mehefin 27ain 2018

### Materion yn codi.

Mae absenoldeb Cyngorwyr yn cael ei roi fel eitem i'w drafod ar yr agenda nesaf.

- 12.2 Nid yw'r gwaith ar giât mynwent Llangernyw wedi cael ei wneud. CR i gysylltu efo GE ar frys.
- 12.3 Mae CR wedi gosod yr arwyddion newydd ym mynwent Llangernyw. Mae yn ymddiheuro nad yw'r rheolau Cymraeg diwygiedig wedi cael eu gwneud. Yna fe fyddant yn cael eu hanfon i'r Cyngorwyr cyn cael eu cymeradwyo yng nghyfarfod mis Medi. Mae'r rhai Saseneg yn barod
- 15.1 Hen Ofaint, Llangernyw (GLL) yn mynd ar ôl y mater yma.
- 15.2 Pwmp dŵr y Llan, Llangernyw (CR i ofalu am hwn)
- 15.3 Dogfennau Cofrestru Tir mynwent Gwytherin – mae aelod o'r Gofrestru Tir yn dod i weld y safle.

### Cronfa Bro Cernyw

Mae Elwen Owen wedi dweud ei bod am helpu am gyfnod efo gweinyddu Cronfa Bro Cernyw.

Mae yna siec am £275 wedi cael ei roi ond heb ei dalu i mewn gan Glwb Pwytho Gwytherin ond mae yna broblem ganddynt efo agor cyfrif banc.

Dyweddodd GD fod Elwen fel arfer yn anfon llythyr i Geraint Tŷ Mawr yn gofyn am arian o Gronfa Melinau Gwynt Moelogan.

Penderfynwyd ein bod yn estyn cyfnod y dyddiad cau i ddiwedd Tachwedd ond os oes yna achos arbennig yna fe gaiff ei drafod ynghynt. Datganodd GD ddiddordeb yn y mater yma.

- 17.5 Mae gweddill cyflog Elwen angen ei dalu. Mae EW am fynd at Iona i'w sortio.
- 17.7 Mae Nicola Evans wedi derbyn siec am £500 ar ran Cymdeithas Chwaraeon Llangernyw.
- 18.4 Ffordd o Gosen am Maesol – GD wedi dweud wrth GLL am y broblem
- 18.5 AV am gysylltu efo Mr R. Roberts ynglŷn a staenio'r hysbysfyrdau.

**Cofnodion yn gywir,** Diane yn cynnig ac Emlyn yn eilio.

## 5. Materion Ffyrdd ac Amgylchedd

5.1 Adroddwyd yn ôl gan GLL am 2 glwstwr o Glymllys Siapaniaidd ger Bethabara. Maent yn cael eu chwistrellu un waith y flwyddyn ym mis Hydref neu Tachwedd. Mae wedi bod yn cael sgwrs efo Helen Wanklyn gan fod yna 2 glwstwr arall yn tyfu yn y gwrych gyferbyn â Chymerau. Mae EW am ysgrifennu at y teulu ar ran y Cyngor i ddweud beth yw y rheolau ynglŷn â'u difa.

5.2 Arhosfan Bws Pentre. Mae GLL wedi derbyn llythyr gan Gyngor Conwy yn dweud nad ydynt yn gyfrifol amdano ddim mwy a'n bod ni fel Cyngor Cymuned yn gorfod ei gymeryd drosodd. Golyga hyn y bydd yn rhaid ei gofrestr efo Gofrestr'r Tir, mae angen staenio y coed a'i dacluso. Pasiwyd ein bod yn ei gadw gan fod plant ysgol wedi bod yn ei ddefnyddio i fochel pan maent yn aros am y bws. Ei roi ar agenda mis Medi.

5.3 Awdit Ward Llangernyw. Daeth Elwyn Williams o Gyngor Conwy i gyfarfod efo GLL ac AV a cherdded ar hyd y pentref i weld beth sydd angen ei wneud. Mae yna restr o bethau wedi cael eu gwneud yn barod ac eraill ar fin eu gwneud. Gofynwyd pam nad oes Awdit Pentref yng Nghwytherin a Pandy Tudur? GLL i holi. Roedd angen torri rhai gwrychoedd oherwydd eu bod yn tyfu dros y palmant ac roedd GLL wedi bod yn eu torri, ond daeth criw Conwy i orffen.

## 6.Ceisiadau Cynllunio.

6.1 Cais rhif 0/45267 3 Tyddyn Uchaf Cottages, dim gwrthwynebiad.

Mae yna 2 gais arall wedi dod i law ac fe gant eu trafod mewn cyfarfod arbennig ymhen pythefnos.

## 7.Ymaelodaeth Un Llais Cymru. Rydym wedi ail ymaelodi. Ein cynyrchiolwyr yw DR ac REW

## 8.Materion ariannol.

Awdit chwarter cyntaf y flwyddyn. Cafwyd adroddiad gan DR. Mae GD wedi bod yn y banc yn trio sortio allan y cyfiri ar y wê. Mae DR wedi anfon cyfrifon i'r BDO efo recorded delivery ar ôl iddynt gael eu arwyddo gan Gwenda Cooper a Gwyn Williams cadeirydd 2017/8, yn ogystal maent wedi bod i fyny yn y gwahanol bentrefi ar yr hysbysfyrddau. Diolchodd Einir i Diane am ei holl waith ynglyn â'r cyfrifon.

## 9. Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. EW am ei yrru ymlaen efo "Nil Return."

## 10. Blychau teliffon Llangernyw a Phandy Tudur

Rydym wedi derbyn dogfen i ddweud mai'r Cyngor Cymuned yw perchenog blychau ffôn Llangernyw a Phandy Tudur. Mae sawl syniad ar sut i'w defyddio e.e. diffibilyddydd wedi ei osod ynddynt. Mae'r gost tua £2,000 i'w gosod ac mae angen i'r pentrefwyr ym Mhandy Tudur beth yn union maent eisiau ei gael yn y blwch. EHE i holi Meira Woosenam a oes yna gymorth ar gael tuag at y costau.

## 11. Gor-yrru drwy bentref Llangernyw

Adroddodd GLL am beth mae Cyngor Cymuned Pentrefoelas a'r ysgol ar y cyd wedi ei wneud. Maent wedi creu posteri mawr oddi amgylch y pentref gydag 20mya arnynt. Hefyd mae yna fodel o blismon ar gwr y pentref sydd yn gwneud i'r ceir arafu! Mae Sioe Llangernyw efo cystaleuaeth Bwgan Brain, efallai y buasai'n syniad da i'w gwneud gan feddwl am ddiogelwch y ffordd.

## 12.Cyfieithu cofnodion y Cyngor Cymuned.

Adroddodd EW fod y cyfieithu yn warthus ar gyfer misoedd Mawrth a Mai gyda gwallau yn strwythr y brawddegau a'r ystyr yn Saesneg. Nid ydym am dalu biliau Mawrth a Mai. Mae GD wedi talu £167.47 yn barod am gyfieithu ym Menter Iaith Llanrwst. Pasiwyd i roi un cyfle arall iddynt ac yna chwilio am rywun arall.

## 13.Biliau

D. Evans - bil am dorri gwellt	£400.00
Sgipiau – 3 pentref	£666.00
P.R.Signs – arwyddion mynwent Llangernyw	£43.20
K.Dickinson – staen i'r byrddau hysbysebu	£21.26
Blodau i'r tybiau AV	£23.90
Siec Cyngor Cymuned i Fenter Bro Cernyw	£600.00

## 14.Gohebiaeth

14.1 Cafwyd llythyr o ddiolch am yr arian gan Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn, hefyd gan Fenter Bro Cernyw.

14.2 Mae yna ohebiaeth gan Menter Hiraethog ynglyn â Sioe gwledig a diogelwch ond roedd rhai o'r Cynghorwyr yn cwyno nad oeddynt yn medru ei ddarllen.

Mae cwyn wedi dod am ohebiaeth gan y GDPR yn uniaeth Saesneg.

## 15. Materion lleol

15.1 EW - wedi derbyn 2 e bost gan bobl wahanol o Wytherin yn cwyno am dyfiant ar ochr serch y fynwent. Pasiwyd fod EW yn sgwennu yn ôl atynyt i ddweud ei fod yn cael ei dorri unwaith y flwyddyn ar ôl i'r blodau gwyllt gael amser i wneud had. Caiff ei dorri ar ôl toriad olaf y fynwent. REW i ofyn i Dei Evans faint fydd y gost ychwanegol.

15.2 REW - Nid yw cae chwarae Gwytherin wedi cael ei dorri. Roedd yr un peth wedi digwydd llynedd. GLL am fynd ar eu holau.

15.3 GD ar ran GJ. Pan oedd Pont Tŷ Hir wedi cau roedd ceir yn trafelio ar hyd lôn Buarth Cerrig ac oherwydd hynny mae yna dyllau ar y lôn. Rhaid canmol y gwaith ar y bont yma a'r gwaith yn Hafod Bach ac mae GLL am ddiolch i Gyngor Conwy am y gwaith yma.

15.4 EHE yn dweud fod yna ymgyngoriad ynglyn â chodi tâl chludiant i blant dros 16oed i fynychu ysgol Uwchradd.

Roedd yna gynllun i gael gofal plant ym Mhandy Tudur ond nid oedd y person wedi cymhwyso.

15.5 DR yn dweud fod pobl yng Ngwytherin wedi gofyn am arwyddion araf yn y pentref gan fod rhai yn gyrru i lawr yr allt. Mae pont Tan-y-Bryn, Gwytherin wedi ei ddifrodi. Roedd yna galch wedi ei adael yn Cornwall ond mae wedi cael ei symud a'i ddefnyddio erbyn hyn.

15.6 GLL Mae'r Cynghorwyr wedi derbyn adroddiad ganddo o grynodeb o'i flwyddyn fel Cynghorydd Siriol.

Cyfarfod arbennig nesaf nos Fercher Awst 15fed am 7.30pm ym Mhandy Tudur.

Cymerwyd y cofnodion gan Ann Vaughan yn absenoldeb Clerc.